IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 5 EBRILL 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lancaster a/ac Wood |

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr a oedd wedi derbyn 6 phwynt cosb DVLA am fethu â datgelu hunaniaeth gyrrwr. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn cael rhai problemau teuluol a'i fod wedi symud allan o gartref y teulu dros dro. Tra'n byw mewn cyfeiriad arall, cyflawnodd drosedd goryrru. Nid oedd yn ymwybodol o'r drosedd gan fod yr ohebiaeth wedi'i hanfon i gyfeiriad cartref y teulu. Nid oedd yn ymwybodol ychwaith iddo gael ei alw i'r llys wedi hynny lle cafodd ddirwy o £660, ynghyd â chostau a 6 phwynt cosb.

Derbyniodd y gyrrwr gyfrifoldeb a gofynnodd i'r Is-bwyllgor ystyried ei fod wedi bod yn gyrru am 21 mlynedd o'r blaen heb gyflawni unrhyw droseddau na chael unrhyw gwynion.

PENDERFYNWYD - rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r gyrrwr am drosedd gyrru.

(2) Achos 2

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais mewn egwyddor ar gyfer ymgeisydd a oedd â chollfarn am fod â sylwedd dan reolaeth yn ei feddiant gyda'r bwriad o'i gyflenwi.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai ceisiwr lloches oedd yr ymgeisydd ar adeg y drosedd. Nid oedd yn gallu gweithio'n gyfreithlon ac roedd yn gwerthu cyffuriau i ennill incwm. Derbyniodd yr ymgeisydd ei fod wedi gwneud camfarn ddifrifol. Roedd bellach yn gweithio fel gyrrwr dosbarthu.

PENDERFYNWYD – Gwrthod y cais am drwydded gyrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am